Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, CCEA, Edexcel ac OCR.

Hysbysiad i Ganolfannau

Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau Gwrando TGAU a TAG Ieithoedd Tramor Modern: (Defnyddio casetiau, chwaraewyr MP3 a digido deunydd gwrando)

1. Defnyddio chwaraewyr MP3

1.1 Dylid dilyn y cyfarwyddiadau canlynol ynglŷn â defnyddio chwaraewyr MP3 mewn arholiadau Gwrando TGAU a TAG Ieithoedd Tramor Modern.

- **Rhaid** i'r swyddog arholiadau lofnodi am ddeunyddiau gwrando a ddarperir ar ffurf CD/casét yn unol ag adran 1.14 cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*.
- **Rhaid** i'r ganolfan ddarparu chwaraewyr MP3. Nid yw'n dderbyniol i ymgeiswyr ddarparu eu chwaraewr MP3 eu hunain.
- Dylid llwytho deunyddiau gwrando TGAU a/neu TAG ITM i lawr ar chwaraewyr MP3 canolfannau, o safle allrwyd diogel y corff dyfarnu (neu o CD). **Ni ddylid gwneud hyn fwy nag 1 diwrnod gwaith cyn yr amser dechrau a gyhoeddwyd gan y corff dyfarnu am yr arholiad**.
  (Os yw arholiad gwrando TGAU/TAG ITM wedi'i amserlennu ar ddydd Llun, bydd y corff dyfarnu'n sicrhau bod y ffeiliau ar gael i'w llwytho i lawr ar y dydd Gwener cyn yr arholiad.)
- Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, argymhellir bod aelod o staff o adran TGCh y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon.
- Deunyddiau gwrando arholiad Gwrando TGAU neu TAG ITM penodol yn unig y gellir ei storio ar y chwaraewyr MP3.
- **Rhaid** dychwelyd y deunyddiau cyfrinachol sy'n cael eu cyflenwi gan y corff dyfarnu i bwrpasau'r arholiad Gwrando i gyfleusterau storio diogel y ganolfan cyn gynted ag y bydd y llwytho i lawr wedi'i gwblhau ar bob chwaraewr MP3.
- **Rhaid** dychwelyd pob chwaraewr MP3 sydd â deunydd cyfrinachol wedi'i storio arno i gyfleusterau storio diogel y ganolfan. **Rhaid** eu storio'n unol ag adran 1.3 cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau.* **Rhaid** trin y chwaraewyr MP3 fel deunydd arholiad cyfrinachol tan y bydd yr arholiad wedi'i sefyll.
- **Rhaid** i'r swyddog arholiadau gadw log o'u gweithredoedd bob amser. Yn bennaf, dyddiad llwytho'r deunydd cyfrinachol i lawr i bob un o'r chwaraewyr MP3, pa bryd y cafodd y chwaraewyr MP3 â'r deunydd cyfrinachol arnynt eu rhoi yn y storfa ddiogel yn ogystal â pha bryd y dilëwyd y deunydd gwrando oddi ar y chwaraewyr.

- **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod:

    - y chwaraewyr MP3 o faint addas ac yn gallu cael eu gweithredu'n annibynnol;
    - pob chwaraewr MP3 yn gweithio'n iawn pan fydd y deunydd gwrando'n cael ei lwytho i lawr. Cyfrifoldeb y ganolfan yw cyflwr gweithio cyffredinol yr offer ac ni fydd cyrff dyfarnu fel arfer yn ystyried bod nam ar weithrediad y chwaraewr MP3 yn ddigon o sail dros wneud cais am ystyriaeth arbennig;
    - o leiaf un chwaraewr MP3 sbâr ar gael i ymgeiswyr pan ddefnyddir chwaraewyr MP3 mewn arholiad gwrando ITM.

- **Ni ddylai ymgeiswyr fenthyg chwaraewr MP3 gan ymgeisydd arall tra bydd yr arholiad yn mynd rhagddo, am unrhyw reswm. Rhaid** i'r goruchwyliwr roi chwaraewr MP3 arall a ddarperir gan y ganolfan i'r ymgeisydd. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod o dan oruchwyliaeth bob amser a **rhaid** caniatáu iddo gael y cyfnod amser llawn a bennir ar gyfer yr arholiad.

- Ar ôl cwblhau'r arholiad

    - **rhaid** tynnu'r ffeiliau gwrando oddi ar y chwaraewyr MP3;
    - gall y ganolfan gadw'r ffeiliau i'w defnyddio'n fewnol gydag ymgeiswyr yn y dyfodol;
    - **rhaid** clirio ffeiliau oddiar y chwaraewyr MP3 cyn cychwyn ar unrhyw gyfres arholiadau yn y dyfodol.

2. Digido deunydd gwrando (Storio deunydd gwrando ar rwydwaith cyfrifiadur y ganolfan)

2.1 I bwrpasau digido'r deunydd gwrando ar rwydwaith cyfrifiadur canolfan, gall canolfannau gyrchu'r deunydd gwrando cyfrinachol hyd at **1 diwrnod gwaith cyn amser dechrau cyhoeddedig yr arholiad. Nid oes angen ceisio** caniatâd o flaen llaw gan y corff dyfarnu perthnasol.

2.2 Pryd bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny, argymhellir bod aelod o staff o adran TGCh y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon. **Rhaid llwytho'r deunydd i lawr i ran ddiogel rhwydwaith y ganolfan, h.y. y rhan o'r rhwydwaith y gall ond staff TGCh ei chyrchu. Ni ddylai fod ar gael i'r myfyrwyr tan yr amser penodol.**

2.3 Unwaith y bydd y deunydd gwrando wedi'i lwytho i lawr, **ni ddylid** gadael yr ystafell/man arholi heb oruchwyliaeth na heb ei chloi. **Ni** chaniateir mynediad i'r rhyngrwyd, data sydd wedi'u storio ar y gyriant caled nac unrhyw gyfryngau cludadwy megis disgiau hyblyg, CDau neu ffyn cof yn ystod yr arholiad.

3. Defnyddio casetiau

3.1 Pan fydd canolfan am drosglwyddo deunydd gwrando, sydd wedi'i gyflenwi gan y corff dyfarnu, o CD i gasetiau unigol, **rhaid** gwneud hyn yn **ddim cynt nag 1 diwrnod gwaith cyn yr amser dechrau a gyhoeddwyd gan y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.**

(Os bydd arholiad TGAU/TAG ITM Gwrando wedi'i amserlennu i'w gynnal ar ddydd Llun, bydd y corff dyfarnu'n caniatáu i'r ganolfan drosglwyddo deunydd gwrando o CD i gasetiau unigol ar y dydd Gwener cyn yr arholiad. **Nid** oes angen gofyn am ganiatâd gan y corff dyfarnu perthnasol.)

3.2 Pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, argymhellir bod aelod o staff o adran TGCh y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon.

3.3 Rhaid cadw at y drefn a nodir yn adran 1.1 y ddogfen hon bob amser, yn bennaf unwaith y bydd y deunydd gwrando wedi'i drosglwyddo o CD i gasét bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu dychwelyd i gyfleusterau diogel y ganolfan a'u storio yno'n unol ag adran 1.3 cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau.*

Noder: rhaid i chi gyfeirio bob amser at y cyfarwyddiadau pwnc-benodol a gyhoeddir gan y corff dyfarnu perthnasol ar gyfer arholiadau Gwrando TGAU a TAG ITM.